



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diweddaru cyfraith fwyd Cymru wrth baratoi ar gyfer Brexit

Dyddiad cyhoeddi: 5 Chwefror 2019
Camau i'w cymryd: ymatebion erbyn 19 Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau mae Gweinidogion Cymru am eu gwneud:

(a) i Offerynnau Statudol Cymru i ddiweddarau cyfeiriadau at gyfraith yr UE sy'n cael eu hystyried yn hen. Bydd y diwygiadau arfaethedig hyn, ym marn Gweinidogion Cymru, yn sicrhau bod y fframwaith ddeddfwriaethol yn y maes hwn yn gyfredol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE; a

(b) o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA) i Offerynnau Statudol Cymru sy'n deillio o gyfraith yr UE, sy'n gysylltiedig â safonau marchnata a labelu bwyd a llaeth ysgol. Bydd y newidiadau arfaethedig, ym marn Gweinidogion Cymru, yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn yn parhau'n weithredol os bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd 'heb gytundeb'.

Sut i ymateb

Ar-lein

Mae'r ddogfen ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Ysgrifennwch atom yn:

Yr Is-adran Fwyd - Ail Lawr y Gorllewin, Piler MO4
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

FoodEUExitConsultation@gov.wales
YmgynghoriadBwydYmadaelA'rUE@llyw.cymru

e-bost: Daiana.Baldovin@gov.wales

ffôn: 03000258736

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni chaiff y gwaith hwnnw ond ei gyflawni o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

MANYLION YR YMGYNGHORIAD

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno manylion am gynigion Llywodraeth Cymru i gywiro diffygion yn Offerynnau Statudol Cymru ("OSau") sy'n deillio o ganlyniad i ymadawriad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen y newidiadau hyn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n weithredol ar ôl ymadael 'heb gytundeb'.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn pennu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio cyfeiriadau at gyfraith yr UE yn Offerynnau Statudol Cymru sy'n cael eu hystyried yn hen. Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol ym marn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn gyfredol ar ddiwrnod gadael.

Mae'r ymgynghoriad yn disgrifio egwyddorion cyffredinol y newidiadau arfaethedig hyn, a chroesawir barn rhanddeiliaid yn y diwydiant a pherchnogion busnesau.

Paratowyd y ddogfen ymgynghori hon gan Lywodraeth Cymru ac mae'n berthnasol i Gymru'n unig.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Canfod barn busnesau bwyd a phorthiant anifeiliaid; awdurdodau gorfodi; grwpiau defnyddwyr; rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol ar y newidiadau a gynigir gan Weinidogion. Bydd y newidiadau arfaethedig, ym marn Gweinidogion Cymru, yn sicrhau bod deddfwriaeth ddomestig Cymru'n gyfredol ac yn parhau'n weithredol os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 'heb gytundeb'.

Bydd copi o'r dogfennau ymgynghori hefyd ar gael ar ein gwefan yn y man.

At bwy mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf?

Sefydliadau, busnesau (e.e. gweithgynhyrchwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr cynhyrchion bwyd) a chyrrff gorfodi yn y diwydiant bwyd. Efallai y bydd yr ymgynghoriad o ddiddordeb hefyd i grwpiau defnyddwyr ac eraill (e.e. cyrrff anllywodraethol) sydd â buddiant mewn deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru'n unig.

CYFLWYNIAD

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cynnal safonau uchel diogelwch bwyd a thryloywder y gadwyn gyflenwi yng Nghymru, ac i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn yn gyfredol ac yn parhau'n weithredol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

I wneud hyn, mae angen cywiro cyfeiriadau at gyfraith yr UE sy'n hen a diffygion yn OSau Cymru.

Mae'r ymgynghoriad felly am glywed barn ar y diwygiadau arfaethedig i OSau Cymru sy'n gysylltiedig â:

- a) safonau marchnata bwyd;
- b) safonau cyfansoddiad a labelu bwyd;
- c) llaeth ysgol; a
- d) chofnodi ar brisiau cynnyrch llaeth.

Nid yw'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno polisi newydd – ond mae'n ymdrechu i gynnal y drefn bresennol.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn rhoi sylw i feysydd y mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ("FSA") yn gyfrifol amdanynt. Os bydd angen unrhyw ymgynghoriad yn y meysydd hynny, bydd yn cael ei gynnal gan yr FSA.

Cefndir a Chynigion

Diwygiadau Amrywiol

Mae angen cywiro hen gyfeiriadau sy'n gysylltiedig â chyfraith Ewrop o fewn deddfwriaeth ddomestig, er enghraifft ble y mae Cyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd wedi'u diwygio neu eu disodli, cyn i'r DU ymadael â'r UE. Bydd y cywiriadau yn sicrhau bod y llyfr statud yn gyfredol wedi Brexit.

Cynigir bod Gweinidogion Cymru yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau ers Cofnodi Prisiau Llaeth (Cymru) 2011 i ddiwygio neu ddisodli cyfeiriadau sydd ddim yn gyfredol.

Gweithredu

Yn dilyn y Refferendwm, ar 26 Mehefin 2018 cafodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA) ei phasio.

Yn ôl yr EUWA o'r diwrnod pan fyddwn yn ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019, daw cyfreithiau a oedd yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan yr UE yn rhan o gyfraith ddomestig y DU.

Gan fod safonau marchnata, labelu a diogelwch bwyd a llaeth ysgol yn feysydd datganoledig, mae'r EUWA yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cywiriadau i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru ar y materion hyn er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu ar ôl i'r DU adael yr UE.

Ers canlyniad y refferendwm i Ymadael â'r UE, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu pa mor weithredol yw'r holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd a diod sy'n gymwys yng Nghymru y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r adolygiad wedi canfod rhestr o newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod OSau Cymru yn parhau'n weithredol ac effeithiol.

Mae angen cywiriadau i'r OSau Cymru canlynol:

- Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Labeli Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017; a
- Rheoliadau Cofnodi Prisiau Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2010.

Ni ddylai'r newidiadau sy'n cael eu cynnig gael unrhyw effaith ar Ddiwydiant Cymru gan eu bod yn newidiadau i gywiro diffygion ac sy'n cael eu gwneud i sicrhau bod y gyfraith yn parhau'n weithredol, bod y diwydiant yn parhau'n gynaliadwy a thryloyw, a bod defnyddwyr yn cael ei diogelu.

Ni ddylai'r newidiadau arfaethedig olygu unrhyw newid yn lefel yr amddiffyniad i iechyd pobl nac anifeiliaid, nac i safon y bwyd y mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl yn achos cynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu'n ddomestig neu sy'n cael ei fewnforio.

Rhoddir rhagor o fanylion ar egwyddorion cyffredinol y newidiadau arfaethedig isod.

Cefndir y Rheoliadau

Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn creu system i nodi ac i gofrestru anifeiliaid buchol ac i labelu cig eidion a chynnyrch cig eidion. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys rheoliadau manwl ar gyfer marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau, ac mae'n cynnwys rheolau i ddarparu gwybodaeth am gig anifeiliaid buchol 12 mis oed neu iau wedi'i ragbecynnu yn y man gwerthu.

Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â marchnata cig dofednod gan gynnwys adar cyfan a thoriadau, ffres ac wedi'u rhewi. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r camau yn y broses farchnata, pa wiriadau ddylai gael eu gwneud gan awdurdodau gorfodi, ac

maent hefyd yn datgan rhwymedigaethau'r sawl sy'n gysylltiedig â'r broses farchnata, h.y. cynhyrchwyr, lladd-dai.

Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu safonau marchnata'r UE sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, marcio a graddio wyau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys monitro salmonela a rheolaethau ar gyfer wyau sydd wedi'u bwriadu i gael eu bwyta gan bobl, yn unol â'r Cynllun Cenedlaethol ar Reoli Salmonela ar gyfer Heidiau Dodwy.

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â charcasau anifeiliaid buchol a moch sy'n oedolion. Maent yn cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r graddfeydd ar gyfer dosbarthu carcasau, a manylion pellach sy'n disgrifio gweithredu'r graddfeydd hynny i ddosbarthu carcasau. Maent hefyd yn cynnwys hysbysiadau i'w gwneud i Weinidogion Cymru gan weithredwyr lladd-dai sy'n lladd anifeiliaid buchol a moch sy'n oedolion, ac maent yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â dal trwyddedau gan bobl sy'n dosbarthu carcasau buchol neu sy'n gysylltiedig â dosbarthu carcasau o'r fath gan gyfarpar graddio awtomatig.

Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau "atodol" cenedlaethol i fuddiolwyr cymhorthdal gan yr UE ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth. Maent hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu pa fuddiolwyr neu gynhyrchiol a all elwa ar y taliadau atodol cenedlaethol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu cadw'n ôl neu adennill unrhyw gymorth yr UE neu unrhyw daliadau cenedlaethol nad oes gan yr ymgeiswyr hawl iddynt neu lle mae'r ymgeisydd yn torri unrhyw ymrwymiadau a roddwyd fel amod ar gyfer cymorth Undeb neu daliad cenedlaethol o'r fath. Mae'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau bod gan bobl a awdurdodir gan Weinidogion Cymru bwerau mynediad ac arolygu penodol o ran y Cynllun Llaeth Ysgol er mwyn hwyluso'r broses o orfodi'r Cynllun hwn. Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (ar ran Gweinidogion Cymru) weinyddu'r cynlluniau taliadau atodol cenedlaethol yng Nghymru.

Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi fframwaith i orfodi'r rheolau marchnata Ewropeaidd yn y sector ffrwythau a llysiau ffres. Maent yn dynodi Gweinidogion Cymru fel corff arolygu i Gymru ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi swyddogion awdurdodedig. Mae'r Rheoliadau'n rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig i reoli symudiad cynnyrch garddwriaethol ac yn rhoi hawl adolygu i'r sawl sy'n cael eu gwasanaethu â hysbysiad ysgrifenedig sy'n eu hysbysu bod y pŵer hwnnw'n cael ei weithredu.

Rheoliadau Cofnodi Prisiau Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i broseswyr llaeth ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru sy'n gysylltiedig â phrisiau rhai cynnyrch llaeth gan gynnwys caws a llaeth amrwd.

Disgrifiad o'r newidiadau

Diwygiadau Amrywiol

Cynigir bod diwygiadau amrywiol yn cael eu gwneud i Reoliadau Cofnodi Prisiau Cynnyrch Llaeth 2011 i ddiwygio cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr EU sydd ddim yn gyfredol.

Byddai'r diwygiadau hyn yn dod i rym cyn i'r DU ymadael â'r UE a byddai'n sicrhau bod y llyfr statud yn gyfredol. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cynnal y status quo.

Gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud nifer o ddiwygiadau technegol amrywiol i gywiro diffygion yn neddfwriaeth Cymru sy'n codi o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ddatrysiadau technegol gymharol fân, yn cynnwys amrywiol faterion megis:

- Diwygiadau canlyniadol sy'n cael eu hachosi gan ddiwygiadau//ddirympiadau i Erthyglau o fewn Rheoliadau yr UE y mae'r Rheoliadau domestig hyn yn eu gorfodi;
- Cyfeiriadau at Aelod Wladwriaethau "eraill"/trydydd Gwledydd' sydd ddim yn briodol bellach wedi ymadael a
- Dileu darpariaethau di-angen yn neddfwriaeth Cymru sy'n cyfeirio at swyddogaethau y Comisiwn Ewropeaidd (Comisiwn) sy'n weithredol yng Nghymru (e.e. darpariaethau sy'n rhoi pŵer i weithwyr y Comisiwn i gael mynediad i eiddo yng Nghymru). Bydd y cywiriadau sydd i gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU i gyfraith uniongyrchol yr UE sy'n cael ei chadw yn dileu swyddogaethau'r Comisiwn yn gysylltiedig â Chymru.

Mae enghreifftiau o'r cywiriadau arfaethedig i'w gweld isod.

Yn achos:

- Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011; a
- Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009.

Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig gwneud nifer o newidiadau i gywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth hon. Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig gwneud nifer o ddiwygiadau, gan gynnwys cywiro cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yn OSau Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn weithredol ac yn eglur.

Fel enghraifft, cynigir fod y cyfeiriad at "Ddeddfwriaeth yr UE" yn Rheoliad 4(1) o Reoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 yn cael ei newid i "Ddeddfwriaeth a Gedwir gan yr UE". Ni fyddai'r darpariaethau eu hunain yn newid – newid technegol yn unig fyddai hwn er mwyn adlewyrchu'n well y sefyllfa ar ôl Brexit.

Mae'r pedair set uchod o Reoliadau'n caniatáu swyddogion awdurdodedig, fel swyddogion awdurdodau lleol, i gymryd camau gorfodi fel hapwiriadau neu arolygon i helpu i sicrhau cydymffurfiaeth a'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau'n rhoi pŵer mynediad i fangreoedd yng Nghymru i swyddogion awdurdodedig i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae enghreifftiau yn yr OSau lle caniateir i swyddog awdurdodedig fod yng nghwmni cynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd.

Ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd bellach yn briodol i gynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd o fewn y pŵer hwn i gael mynediad i fangreoedd yng Nghymru. O ganlyniad cynigir fod y cyfeiriadau hyn yn cael eu tynnu o'r Rheoliadau.

O ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE, mae achosion lle mae angen gwneud newidiadau i ddiffiniadau yn OSau Cymru.

Yn achos:

Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud nifer o ddiwygiadau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE. Mae hyn yn cynnwys y diwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu'r newidiadau sy'n sicrhau bod cig eidion sy'n cael ei labelu yn unol â ddeddfwriaeth yr UE, cyn diwrnod ymadael yn gallu parhau i gael ei roi ar y farchnad tan 31 Rhagfyr 2010, ac y gall barhau ar y farchnad tan bod y stoc wedi gorffen.

Mewn perthynas â:

- Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010; a
- Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011;

Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig nifer o newidiadau i gywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth hon. Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig nifer o gywiriadau, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i ddiwygiadau i newid cyfeiriadau at 'drydydd gwledydd'. Ar ôl i ni adael yr UE, bydd angen diweddarau'r cyfeiriadau hyn i sicrhau eu bod yn cofnodi gwledydd yr UE, i

sicrhau bod gwledydd yr UE yn cael eu trin yn yr un ffordd â thrydedd gwlad eraill fel Canada.

Cynigir mewnosod y diffiniad canlynol o “drydedd gwlad”:

“Mae trydedd gwlad yn golygu unrhyw wlad heblaw (a) y Deyrnas Unedig (b) Beiliaeth Jersey (c) Beiliaeth Guernsey neu (d) Ynys Manaw”.

- Yn achos Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

Mae Gweinidogion Cymru’n cynnig nifer o newidiadau i gywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth hon. Mae Gweinidogion Cymru’n cynnig nifer o newidiadau a chywiriadau technegol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i er enghraifft newid cyfeiriadau yn y Rheoliadau at

Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC sy’n pennu’r safonau amddiffynnol sylfaenol ar gyfer ieir dodwy. Pan fydd y DU yn gadael yr UE, ni fydd Cyfarwyddebau’r Cyngor yn weithredol wedyn yn y DU, ac felly mae angen diweddar’r cyfeiriadau hyn. Cafodd darpariaethau perthnasol Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC eu gweithredu yng Nghymru gan Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007. Cynigir felly fod cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb yn cael eu newid i gyfeiriadau yn y Rheoliadau i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn weithredol ac yn caniatáu i’r system bresennol barhau yng Nghymru.

Hefyd, yn y Rheoliadau hyn diffinnir y term “rhanbarth” ar hyn o bryd fel “Cymru” drwy gyfeiriad at adran 1(2)(b) o Ddeddf

Etholiadau Senedd Ewrop 2002. Mae Deddf Etholiadau Seneddol Ewrop 2002 i’w diddymu gan Atolden 9 EUWA ac felly mae angen diwygio’r diffiniad hwn. Mae’r diffiniad o ranbarth yn cael effaith ar y diffiniad “rhanbarth gynhyrchu”, a phan gaiff ei ddarllen gyda Rhan 3 mae’n darparu ar gyfer eithriadau i’r rheolau marchnata.

Mae Paragraff (a) y diffiniad o “ranbarth cynhyrchu”, wrth eu darllen gyda’r eithriadau yn Rhan 3, yn caniatáu i gynhyrchwyr sydd â safle cynhyrchu yng Nghymru i werthu wyau yn uniongyrchol drwy werthu o ddrws i ddrws neu mewn unrhyw farchnad gyhoeddus leol o fewn radiws o 80km i ffin eu safle, neu unrhyw fan arall o fewn “rhanbarth” sef Cymru at y dibenion hyn.

Nid oes modd gweithredu paragraff (b) o’r diffiniad o “ranbarth cynhyrchu” ar hyn o bryd, gan ei fod yn darparu ar gyfer safleoedd cynhyrchu sydd o fewn mwy nag un rhanbarth (h.y. yn rhannol mewn un rhanbarth, ac yn rhannol mewn rhanbarth arall). Gan mai dim ond un ‘rhanbarth’ sydd yng Nghymru (sef Cymru), mae paragraff (b) yn ei gwneud yn ofynnol i’w ddiwygio.

Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig diwygio y diffiniad o “ranbarth cynhyrchu” i ddileu paragraff (b), a chynnwys cyfeiriad penodol at ‘Gymru’. Bydd y cynnig hwn yn datrys y problemau gweithredu, ac yn gwneud y ddeddf yn fwy eglur. Bydd y Rheoliadau yn parhau i gael yr un effaith, a bydd y status quo yn parhau.

Mae cyfeiriadau ar hyn o bryd yn Atodlenni 2 a 3 i’r Rheoliadau hyn at Erthyglau o Reoliad amrywiol o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE. Mae DEFRA yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE gan gynnwys dileu erthyglau fel rhan o’r

rhaglen sydd ganddynt ar waith i gywiro diffygion. Bydd Atodlenni 2 a 3 felly'n cael ei diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan DEFRA i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE.

- Yn achos Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig nifer o newidiadau i gywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth hon. Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig nifer o gywiriadau, gan gynnwys newid yr ymadroddion "Darpariaeth Moch Ewropeaidd" a "Darpariaeth Cig Eidion Ewropeaidd".

Mae'r rheoliadau'n defnyddio'r ymadroddion "Darpariaeth Moch Ewropeaidd" a "Darpariaeth Cig Eidion Ewropeaidd". Cynigir newid y cyfeiriadu hyn i fewnosod y geiriau "a gedwir" - fel y byddant wedyn yn darllen fel "Darpariaeth Moch yr UE a gedwir" ac felly hefyd yn achos "Darpariaeth Cig Eidion Ewropeaidd". Mae hwn yn ddiwygiad technegol i adlewyrchu'r sefyllfa wedi Brexit yn well.

- Yn achos Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017

Cynigir fod cyfeiriadau at "gymorth UE" yn cael eu diweddarau i sicrhau bod y rheoliadau'n parhau i weithredu'n effeithiol.

Mae'n ofynnol bod Aelod Wladwriaethau'n cynnal gwiriadau gweinyddol a hapwiriadau o fangreoedd ymgeiswyr. Mae'r rheoliadau hyn yn helpu Gweinidogion Cymru (trwy bobl awdurdodedig) i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn i gynnal hapwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth ac i atal camgymeriadau a thwyll. Gwneir darpariaeth wedyn i'r unigolyn awdurdodedig i gael eu hebrwng gan unrhyw bobl o'r fath fel y tybia'r swyddog sy'n ofynnol, gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd.

Fel yn achos y Rheoliadau marchnata a labelu bwyd, pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ni fydd bellach yn briodol nac yn angenrheidiol i ganiatáu'r pŵer mynediad hwn i gynrychiolwyr Aelod Wladwriaethau na'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. O ganlyniad cynigir fod unrhyw gyfeiriadau o'r fath yn y Rheoliadau hyn yn cael eu dileu.

- O ran Rheoliadau Cofnodi Prisiau Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2011

Cynigir bod y cyfeiriadau at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/118 yn cael eu diweddarau. Mae'r Rheoliad hwnnw yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd, ac unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd bydd y darpariaethau hyn yn ddi-angen.

Cynigir hefyd bod y diffiniad o "gynnyrch llaeth" yn cael ei ddiwygio gan bod hyn ar hyn o bryd yn cael ei wneud drwy gyfeirio at Reoliad Gweithredu y Comisiwn. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig diwygio'r diffiniad fel ei fod yn rhestru'r eitemau sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd o fewn y diffiniad. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gweithredu hyn a chynnal y status quo.

Effaith

Ni chanfuwyd dim effeithiau ariannol gan Lywodraeth Cymru pan ddatblygwyd y cynigion.

Rydym yn tybio bod pob sefydliad bwyd cofrestredig â diddordeb yn y maes deddfwriaeth hwn ac y byddant felly'n mynd ati i ddeall y ddeddfwriaeth newydd. Yn ôl Cofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR) yr ONS roedd 292,860 o fusnesau'n weithredol yn y sector bwyd-amaeth yn 2017. Rydym yn rhagweld mân gostau cyfarwyddo untro i fusnesau; ac rydym yn amcangyfrif y cymer lai na 30 munud i bob busnes i ddarllen a deall y rheoliadau arfaethedig ac yna i ledaenu'r wybodaeth ymhlith staff allweddol yn eu cwmni. Nid yw'n debygol y bydd y newidiadau a ragwelir yn cael unrhyw effaith arall ar weithrediadau o ddydd i ddydd busnesau gan nad yw'r rheolau'n newid o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Y Broses Ymgynghori

- Mae ymgynghoriad, a fydd yn para 4 wythnos, yn cael ei lansio i roi cyfle i'r rhieni sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau am y cynigion hyn.
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn barn am sut y dylid mynd ati i ddiweddarau cyfeiriadau at gyfraith yr UE yn Offerynnau Statudol Cymru sy'n deillio o'r UE, yn benodol o ran swyddogaethau a chyfeiriadau at derminoleg rhai o gyrff yr UE.

Bydd unrhyw ymatebion a geir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael sylw gofalus a gellir cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a geir ar ein gwefan.

Grwpiau a effeithir

Bydd y newidiadau technegol arfaethedig i gyfraith ddomestig sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad, safonau marchnata a labelu bwyd yn berthnasol i bob un o fusnesau bwyd Cymru (gan gynnwys porthiant), swyddogion gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ogystal â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill gyda buddiant yng nghyfraith fwyd a phorthiant anifeiliaid y DU.

Bydd busnesau a rhanddeiliaid gorfodi cyfraith fwyd am gyfarwyddo'u hunain â'r prif gywiriadau sy'n cael eu cynnig, ac a fydd yn gofyn iddynt gymryd camau i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnal Asesiad o Effaith gan nad yw'n rhagweld dim effaith ar fusnesau nac awdurdodau gorfodi.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 2: Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig yn gysylltiedig â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt uchod?

Cwestiwn 4: A oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad, safonau marchnata a labelu bwyd?

Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i dynnu sylw atynt.

Nodwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Nodwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw:

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rydym yn ddiolchgar i chi am gymryd yr amser i ddarllen ac i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae angen ymateb erbyn 19 Chwefror. Ni fydd unrhyw ymatebion a geir ar ôl yr amser hwn yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad rydym yn gofyn i chi roi eich enw ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, mae gennych y dewis i fod yn ddiennw os ydych yn dymuno. Gweler yr adran ar Ddiogelu Data am ragor o wybodaeth am sut y caiff ei defnyddio.

Diolch i chi ar ran Llywodraeth Cymru am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.